Cyngor Tref Criccieth

Datganiad Hygyrchedd y Wefan

Defnyddio'r Wefan

Cyngor Tref Criccieth sy'n berchen ar y wefan hon. Rydym am i gynifer o bobl â phosibl gallu defnyddio'r wefan hon. Er enghraifft, mae hynny'n golygu y dylech chi allu:

• newid lliwiau, lefelau cyferbyniad a ffontiau

• chwyddo hyd at 300% heb i'r testun ollwng oddi ar y sgrin

• llywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig

• llywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd a

• gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio darllenydd sgrin

Rydym hefyd wedi ceisio gwneud testun y wefan mor syml â phosibl i'w ddeall.

Mae gan AbilityNet gyngor ar wneud eich dyfais yn haws i'w defnyddio os oes gennych anabledd.

Beth i wneud os nad ydych yn medru cael mynediad i rannau o'r wefan

Os oes angen gwybodaeth arnoch chi ar y wefan hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Chlerc y Dref:

E-bost - clerccriccieth@gmail.com

Post – Cae Gwenllian, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0RB

Ffôn - 01766 523294

Byddwn yn ystyried eich cais ac yn cysylltu â chi cyn pen 20 diwrnod.

Adrodd ar broblemau mynediad i'r safle we

Rydym bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd y wefan hon. Os byddwch chi'n dod o hyd i unrhyw broblemau nad ydyn nhw wedi'u rhestru ar y dudalen hon neu os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni'n cwrdd â gofynion hygyrchedd, cysylltwch â Chlerc y Dref.

Proses Gorfodaeth

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y

‘rheoliadau hygyrchedd’). Os nad ydych yn hapus â sut rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb (EASS) yn https://www.equalityadvisoryservice.com/

Gwybodaeth Dechnegol am hygyrchedd y wefan

Mae Cyngor Tref Criccieth wedi ymrwymo i wneud ei wefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Cheisiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Baich anghymesur

Ni fydd dogfennau a ddarperir i ni gan sefydliadau eraill yn cael eu golygu i'w gwneud yn hygyrch.

Cynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygyrchedd

Efallai na fydd llawer o'n dogfennau PDF hŷn yn cwrdd â safonau hygyrchedd - er enghraifft, efallai na fyddant wedi'u strwythuro i fod yn hygyrch i ddarllenydd sgrin. Nid yw'r rheoliadau hygyrchedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni drwsio ffeiliau PDF neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd cyn 23 Medi 2018 os nad ydyn nhw'n hanfodol i ddarparu ein gwasanaethau. Fodd bynnag, os oes dogfen benodol y mae angen ei throsi (heblaw am ddogfennau a ddarperir i ni gan sefydliadau eraill), rhowch wybod i ni ac mi wnawn ystyried eich cais. Gweler cyswllt Clerc y Dref uchod.

Bydd unrhyw PDFs newydd a gyhoeddwn yn cwrdd â safonau hygyrchedd – fodd bynnag gweler baich anghymesur uchod.

Cymeradwyid gan y Cyngor Tref Medi 2020